# Cofnodion cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol a gynhaliwyd am 10.30am ar 9 Rhagfyr 2020 drwy Microsoft Teams

**Yn bresennol / ymddiheuriadau:** Gweler y rhestrau atodedig

**Croeso a chyflwyniadau:** Croesawodd Huw Irranca-Davies AS (Cadeirydd) y cyfranogwyr i'r cyfarfod ac esboniodd sut i ddefnyddio nodweddion amrywiol Teams.

## Busnes y Cyfarfod Blynyddol

**Adroddiad y Cadeirydd:** Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad ar flwyddyn anarferol pan fu'n rhaid cynnal yr holl gyfarfodydd yn rhithwir oherwydd pandemig Covid. Fodd bynnag, roedd y Grŵp wedi cryfhau ac roedd presenoldeb yn uwch nag yr oedd yng nghyfarfodydd y flwyddyn flaenorol a gynhaliwyd yn y Senedd. Esboniodd y bu'n rhaid gohirio lansiad arfaethedig y Pecyn Cymorth Teithio Llesol i Ysgolion oherwydd y pandemig, a'r gobaith nawr oedd lansio fersiwn a oedd yn ystyried heriau Covid a hynny yn nhymor y gwanwyn / haf 2021. Roedd yn falch o ddweud bod swyddogion y Grŵp wedi parhau i gwrdd yn rheolaidd â Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth a bod cynnydd cyson wedi'i wneud ar nifer o faterion technegol, yn enwedig y darpariaethau yn y Ddeddf Teithio Llesol ar gyfer cerddwyr a beicwyr wrth gynnal a gwella ffyrdd. Diolchodd hefyd i Julie James AS, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol am ei chyflwyniad yn y cyfarfod a gynhaliwyd fis Gorffennaf ac ymgysylltiad parhaus ei hadran â'r Grŵp, gan helpu i wreiddio teithio llesol ymhellach ym Mholisi Cynllunio Cymru a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Gorffennodd ei adroddiad drwy ddiolch i'r Ysgrifennydd a holl aelodau'r Grŵp a oedd wedi gweithio mor galed i wella cyfleusterau teithio llesol yng Nghymru.

**Ethol Cadeirydd**: Cafodd Huw Irrance-Davies AS ei enwebu gan Jenny Rathbone AS ac eiliwyd gan Phil Snaith. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill a chafodd ei ethol yn ddiwrthwynebiad.

**Ethol Ysgrifennydd:** Cafodd Chris Roberts ei enwebu gan Gwenda Owen ac eiliwyd gan John Sayce. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill a chafodd ei ethol yn ddiwrthwynebiad.

## Busnes y Cyfarfod Cyffredin:

### Rhoi Mesurau Effeithiol ar waith i Hyrwyddo Teithio Llesol

Cafwyd cyflwyniadau gan Rhiannon Hardiman o Living Streets a Nick Guy o Wheelrights. Soniodd Rhiannon am bwysigrwydd trawsnewid y ffordd yr oeddem yn defnyddio ein cymdogaethau a datblygu seilwaith diogel. At y diben hwn, roedd angen ymgyrch genedlaethol i newid ymddygiad er gwell. Tynnodd sylw at y modd y llwyddodd cymdogaethau a strydoedd ysgolion traffig isel i newid ymddygiad. Soniodd Nick am wefan newydd Bae Abertawe: swanseabayways.co.uk, a ariannwyd gan Gyngor Abertawe, a oedd yn rhoi cyngor ynghylch cerdded a beicio ac yn cynnwys cynllluniwr siwrnai. Bydd y cyngor yn lansio ymgyrch i hyrwyddo'r wefan yn 2021. Siaradodd hefyd am waith Wheelright gyda Love to Ride a drefnodd heriau beicio er mwyn cael mwy o bobl i deithio ar gefn beic. Soniodd am eu llwyddiant yn ymgysylltu â sefydliadau mewn nifer o gwmnïau a'u parodrwydd i fynychu cyfarfod y Grŵp yn y dyfodol i drafod eu gwasanaethau.

Diolchodd y Cadeirydd i Nick a Rhiannon am eu cyflwyniadau. Yn y drafodaeth gyffredinol a ddilynodd, tynnodd y cyfranogwyr sylw at bwysigrwydd ymgysylltu'n effeithiol â chymunedau lleol i'w darbwyllo am y manteision sy'n gysylltiedig â datblygu seilwaith teithio llesol newydd. Roedd hyn yn arbennig o bwysig yn achos busnesau lleol a oedd yn aml yn amheus o unrhyw fesurau i leihau cyfleusterau ar gyfer ceir. Tynnwyd sylw at y ffaith bod digon o dystiolaeth bod cerddwyr a beicwyr yn cynhyrchu mwy o fasnach leol na gyrwyr ceir. Soniodd nifer o bobl ei bod yn bwysig sicrhau bod llif refeniw yn cyd-fynd ag unrhyw wariant cyfalaf ar deithiol llesol i ariannu'r gwaith o annog pobl i gerdded a beicio.

**Strategaeth Trafnidiaeth Cymru - argraffiadau cyntaf o ddogfen ymgynghori newydd Llywodraeth Cymru.**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi strategaeth drafnidiaeth newydd, y gyntaf ers 2008, ac mae'n cyflwyno gweledigaeth trafnidiaeth ar gyfer yr ugain mlynedd nesaf. Rhoddodd y Cadeirydd drosolwg byr o'r adroddiad. Cytunwyd i ofyn am wirfoddolwyr i helpu i baratoi sylwadau ffurfiol i'r ymgynghoriad a fyddai'n cau ar 25 Ionawr.

**Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Ar ôl tynnu enw Rhiannon Hardiman oddi ar y rhestr o ymddiheuriadau, cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd yn gywir.

**Gan nad oedd unrhyw fusnes arall, diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod a daeth â'r cyfarfod i ben.**

**Yn bresennol**

| Enw cyntaf | Cyfenw | Teitl y swydd | Sefydliad |
|---|---|---|---|
| Huw | Irranca-Davies | Aelod o’r Senedd | Senedd Cymru |
| Jenny | Rathbone | Aelod o’r Senedd | Senedd Cymru |
| Anne | Adams-King | Prif Weithredwr | Beicio Cymru |
| Ken | Barker | | Cycling UK |
| Richard | Brunstrom | | Cycling UK Gogledd Cymru |
| Dan | Coast | Ysgrifennydd | Casnewydd Community Cycling |
| Siân | Donovan | Cyfarwyddwr | Pedal Power |
| Christine | Farr | Uwch Arbenigwr Hybu Iechyd - Ysgolion Iach | Rhwydwaith Ysgolion Iach Cymru |
| Catherine | Floyd | Ymgynghorydd Locwm Iechyd y Cyhoedd | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Matthew | Gilbert | Arweinydd Teithio Llesol | Trafnidiaeth Cymru |
| Owain | Griffiths | | Dinas Feicio Caerdydd |
| Nick | Guy | | Wheelwrights |
| Rhianon | Hardiman | Rheolwr Cymru | Living Streets |
| Stephen | Hughes | Swyddog Cyswllt Cymunedol | Lee Waters AS |
| Meryl | James | Staff Cymorth | Julie Morgan AS |
| Margaret | Jones | Ysgrifennydd | Dinas Feicio Caerdydd |
| Mike | Jones-Pritchard | Cynghorydd Sir | Cyngor Caerdydd |
| Richard | Keatinge | Ysgrifennydd | Beicio Bangor |
| John | Mather | | Cycling UK (Gogledd Cymru) |
| David | Naylor | | Wheelwrights |
| Mathew | Norman | Swyddog Polisi a Materion Cyhoeddus, Cymru | Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint |
| Gwenda | Owen | Swyddog Ymgysylltu - Cymru | Cycling UK |
| Dareyoush | Rassi | Ysgrifennydd | Wheelwrights |
| Mia | Rees | Staff Aelod o’r Senedd | Suzy Davies AS |
| Paulo | Renzel | Swyddog Polisi | Sustrans Cymru |
| Chris | Roberts | Ysgrifennydd | Grŵp Trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol |
| Emma | Sandrey | Cynghorydd Sir | Cyngor Caerdydd |
| John | Sayce | Cadeirydd | Wheelwrights |
| Phil | Snaith | Ysgrifennydd | Fforwm Beicio Sir Gaerfyrddin |
| Paul | Streets | Swyddog Ysgolion | Dinas Feicio Caerdydd |
| Raul | Vasir | Intern | John Griffiths AS |
| Tom | Wells | Perchennog | bikebikebike |

**Ymddiheuriadau:**

Rhun, ap Iorwerth, Aelod o Senedd Cymru
Richard Evans, Cadeirydd Hyfforddiant Beicio Cymru
Helen Mary, Jones, Aelod o Senedd Cymru
Lee Waters AS , Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, Llywodraeth Cymru